

Ymateb i Ymgynghoriad ar y Bil Drafft Bwyd (Cymru) – Medi 2022**Pam bod angen y Ddeddfwriaeth arnom?**

Cyn etholiadau 2021 y Senedd, lansiodd Cynghair Polisi Bwyd Cymru bapur gyda'r teitl "Blaenoriaethau ar gyfer System Fwyd sy'n Addas ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol". Bryd hynny, pwysleisiodd yr angen i ymateb gyda dull integredig, cydweithredol a thymor hir i'r heriau cynyddol a achosir gan system fwyd yn methu ein cymunedau o ran hinsawdd a natur, maeth ac iechyd, ffyniant cymunedol a diogelwch bwyd sylfaenol. Mae llai na 18 mis wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r darn hwnnw o waith, ac yn y cyfnod byr hwnnw rydym wedi gweld maint yr heriau hynny'n gwaethygu ar gyfradd frawychus na fyddai fawr neb wedi gallu dychmygu. Yn y cyfamser, mae'r symudiad tuag at ymateb polisi cynhwysfawr wedi digwydd ar gyfradd araf iawn, ac nid oes unrhyw ddarlun clir yn dod i'r amlwg eto ynghylch pa fath o ymateb a geir.

Gallm dreulio amser diderfyn yma yn nodi'r dystiolaeth sy'n pentyrru bob dydd o'r angen am newid trawsnewidiol cyfanwerthol yn y ffordd rydym yn bwydo ein hunain. Mae ein system fwyd yn fyd-eang yn gyfrifol am oddeutu 30% o allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chynhyrchu bwyd yw'r ffactor unigol mwyaf yn y dirywiad ofnadwy mewn bioamrywiaeth. Er ein bod yn cydnabod bod systemau ffermio Cymru ymhell i ffwrdd oddi wrth y systemau ffermio dwys iawn sy'n gyffredin ledled y byd - rhaid i ni beidio ag anghofio bod 1 o bob 6 rhywogaeth bywyd gwyllt yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu'n gyfan gwbl, gyda nifer o adroddiadau cenedlaethol a DU yn nodi ffermio anghynaliadwy a defnydd tir fel un o brif ysgogwyr dirywiad amgylcheddol. Ar ben hynny, rydym yn wynebu cynnydd brawychus mewn clefydau sy'n gysylltiedig â deiet ac anghydraddoldebau iechyd - mae bron i 60% o oedolion yng Nghymru yn byw gyda gorbwysau neu ordewdra (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ac mae cost gymdeithasol lawn gordewdra yng Nghymru oddeutu £3 biliwn y flwyddyn (Frontier Economics). Mae system cyflenwi bwyd fyd-eang fregus yn dangos ei bod yn agored i amhariadau ar sawl elfen, ac mae bellach yn methu'n aruthrol o ran y gofynion mwyaf sylfaenol, sef y gallu i fwydo ein hunain yn fforddiadwy.

Yn absenoldeb consensws ar weledigaeth ar y cyd ar gyfer ein system fwyd yng Nghymru, mae polisi'n dal i ddod o seilos lle nad yw bwyd yn flaenoriaeth mewn rhai meysydd polisi eraill, pan fo angen rhoi lle blaenllaw iddo. Fodd bynnag, ni allai canlyniadau hyn fod yn fwy difrifol. Mae'r hyn sy'n ymddangos yn syniad da mewn un maes polisi yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol mewn maes arall, a'r methiant hwn, gellid dadlau, sydd wedi bod yn gyfrifol am roi system fwyd fodern i ni sydd wedi dod yn ddibynnol iawn ar ddwysedd a'r crynodiad cynhyrchu, ac mae arbenigo mewn daearyddiaeth yn dod yn fwyfwy cyffredin. Yn gyffredinol, rydym yn cyrchu bwyd o'r fan lle bydd rataf (yn ddelfrydol), ond effaith y system honno fu cynhyrchu costau aruthrol mewn mannau eraill ar gyfer amgylchedd, iechyd a lles economaidd ein cymunedau.

Mae'r heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru o ran bwyd yn enfawr, ond mae'r cyfleoedd yr un mor fawr os ydym yn dod o hyd i'r ewyllys i gymryd rheolaeth dros yr arfau sydd ar gael i ni a bod yn rhagweithiol wrth ddylunio dyfodol bwyd sy'n gweithio i bawb. Dyfodol lle'r ydym yn gwario llai o adnoddau yn delio â symptomau system gamweithredol ac yn dechrau elwa yn y tymor hir drwy ddelio â'r achosion nawr. Dyfodol lle mae'r biliau cynyddol ar gyfer clefydau sy'n gysylltiedig â deiet yn cael eu gostwng drwy fuddsoddi nawr mewn bwyd ysgol ac addysg bwyd. Dyfodol lle mae'r bwyd sy'n cael ei weini mewn ysgolion, a'r plât cyhoeddus yn gyffredinol, yn chwarae ei ran yn y broses o bontio'n gyfiawn i ffermio sy'n ystyriol o natur. Pontio sydd hefyd yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol i ffermwyr a'r economi wledig drwy gadwyni cyflenwi byrrach, a chadw'r gwerth ychwanegol sy'n llifio o Gymru ar hyn o bryd. Lle nad yw'r angen am amaethyddiaeth gynhyrchiol, er enghraifft, yn dod yn ail i'r mentrau angenrheidiol iawn i blannu coed, ond lle mae'r ddau'n cael eu hystyried mewn cynllun cydlynol ar gyfer defnydd tir yng Nghymru.

Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu'r Bil a'r ymgynghoriad hwn. Y cyntaf am ei fod yn cyflwyno fframwaith ystyrion a mesurau atebolrwydd i alluogi dull gweithredu rhagweithiol, gan benderfynu sut rydym am i'n system fwyd weithio, yn hytrach na dim ond delio â'r canlyniadau. A'r olaf oherwydd ei fod yn cynnig cyfle i gryfhau'r fframwaith arfaethedig hwnnw mewn ffyrdd sy'n hanfodol, os yw am arwain at bolisi cydlynol a chynhwysfawr a fydd yn cyflawni'r nod o ddarparu system fwyd sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r canlynol yn darparu ymateb manylach i'r cynigion a amlinellwyd, ac yn benodol yn pwysleisio'r angen i ystyried integreiddio elfennau allweddol y Bil ymhellach yn neddfwrfa bresennol Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at y Bil Gwerthoedd Cymdeithasol a Chaffael, y Bil Amaethyddiaeth a'r Strategaeth Fwyd Gymunedol. Fodd bynnag, nid yw wedi cyfeirio at sut y byddai'n rhyngweithio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru), Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru), polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol, na darparu digon o fanylion am y berthynas rhwng y Bil Bwyd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Un o'r prif resymau mae'r Bil hwn yn bwysig yw oherwydd hyd yma, mae diffyg cysondeb polisi wedi arwain yn aml at negeseuon cymysg, cyfleoedd a gollwyd a dulliau anghyson. Er enghraifft, cyfeiriad strategol twf a diwydiannu'r sector gweithgynhyrchu bwyd yn erbyn cyfeiriad polisi clir o 'amaethyddiaeth gynaliadwy'; isafswm pris alcohol fel rhan o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn erbyn Strategaeth Diodydd Llywodraeth Cymru; polisiau cynllunio sy'n caniatáu i ffermydd lygru cyrsiau dŵr tra bod asedau sy'n allweddol i adeiladu diogelwch bwyd (p'un ai ar y tir neu seilwaith) sy'n cael eu dal mewn perchnogaeth gyhoeddus yn cael eu colli i sectorau eraill; a cholli cyfleoedd i gysylltu Cynllun Manwerthu Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru â Phwysau Iach: Cymru Iach (strategaeth gordewdra) - yn enwedig ynghylch uchelgais ar gyfer Amgylchedd Bwyd Iach.

A. Y Berthynas Rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil Drafft Bwyd (Cymru)

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Bil Bwyd i gefnogi Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 'i hwyluso dull mwy cydlynol o ddatblygu polisi bwyd yng Nghymru'. Fodd bynnag, teimlwn y dylid ystyried amlinellu mwy o gysondeb rhwng darpariaethau a nodau'r bil bwyd a darpariaethau a dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel a ganlyn:

A.1 Nodau bwyd cenedlaethol a lleol:

Dylai'r nodau bwyd arfaethedig gael eu hintegreiddio i'r amcanion, asesiadau a dyletswyddau llesiant y mae'n ofynnol i Gyrrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu a gweithio tuag atynt o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, dylai'r Gyrrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymgorffori nodau bwyd yn eu cynlluniau llesiant, er mwyn sicrhau bod nodau bwyd yn cael eu hintegreiddio i gamau gweithredu Gyrrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i weithio tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol, a glynu wrth y pum ffordd o weithio. Ar ben hynny, dylai'r Comisiwn Bwyd gynhyrchu canllawiau ar sut mae cyflawni'r cysondeb hwn ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – enghraifft o hyn yw pan roddwyd canllawiau ar bolisi cydraddoldeb i gyrrff cyhoeddus drwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i gefnogi'r gwaith o integreiddio polisi cydraddoldeb cyfoes yng nghynlluniau'r Gyrrff Cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

A.2 Y Comisiwn Bwyd a'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol:

I gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel y nodir yn y broses o gyflwyno'r bil arfaethedig, dylai'r comisiwn bwyd arfaethedig a'r strategaeth fwyd genedlaethol amlinellu y bydd yn cyd-fynd ag egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn cynnwys:

- Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru;
- Pum Ffordd o Weithio; a'r
- Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Ar ben hynny, mae'r Bil yn cynnig bod y Comisiwn Bwyd yn rhoi cyngor, yn craffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â nodau bwyd, yn ogystal â'u hadolygu. Dylai'r Bil fynd ymhellach ac amlinellu y bydd yn ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i swyddogaethau cynghori, monitro ac atebolrwydd mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, dylai'r Comisiwn Bwyd gydlynw'r swyddogaethau cynghori, craffu, monitro ac atebolrwydd ar gyfer cyrff cyhoeddus ynghylch nodau bwyd gyda gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mewn perthynas â'u swyddogaethau i gefnogi a monitro cynlluniau llesiant cyrff cyhoeddus.

Yng ngoleuni'r pum ffordd o weithio (integreiddio, cynnwys, cydweithio, atal a meddwl tymor hir) yn benodol, cynnwys, integreiddio a chydweithio, mae mandad cyfreithiol i ymgysylltu ag ystod mor eang â phosibl o weithredwyr yn y system fwyd er mwyn adeiladu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol. Felly, mae angen cyfres o egwyddorion sy'n llywio gweithredoedd y Comisiwn. Gan fod pawb yn ddefnyddiwr, mae hyn yn golygu ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach yn y broses, er enghraifft drwy gynulladau dinasyddion, a sicrhau bod y weledigaeth sy'n deillio o hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd ac yn adeiladu ar eu profiadau eu hunain. Drwy wneud hyn, rydym hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu dinasyddion bwyd a'r angen i adeiladu cymunedau cryfach a mwyrus, ac i sicrhau Strategaeth System Fwyd i Gymru sy'n cael ei chyd-gynhyrchu.

Nid yw'r Bil yn mynd cyn belled ag awgrymu y dylid cael Comisiynydd Bwyd penodol i Gymru. Rydym yn teimlo y dylai Comisiynydd Bwyd, ynghyd â'r Comisiwn Bwyd, fod yn gyfrifol am gyflawni'r broses o gyd-gynhyrchu (cydweithio a chynnwys) i ddatblygu Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru, o'r gwaelod i fyny. Byddai'r Comisiwn yn cyflwyno Strategaeth ddrafft, yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu, i Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo. Bydd y Comisiwn a fydd yn arwain ar y broses hon yn helpu i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei hintegreiddio ar draws blaenoriaethau adrannol Llywodraeth Cymru.

Mae'r gofyniad am integreiddio a chydweithio yn golygu bod angen i gyrff cyhoeddus a Gweinidogion gydweithio i chwilio am synergeddau a chysoni polisi ar draws adrannau, i gefnogi ei weledigaeth o lesiant ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol – dyma ddylai'r Bil Bwyd geisio ei wneud ar gyfer polisiâu sy'n ymwneud â bwyd, yn seiliedig ar Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru a luniwyd ar y cyd. Rôl y Comisiwn Bwyd yw llywio'r broses o integreiddio polisiâu sy'n ymwneud â bwyd ar draws portffolio Gweinidogion. Y Comisiynydd Bwyd, yn hytrach na Chadeirydd y Comisiwn Bwyd, fyddai'n gyfrifol am lywio'r broses hon, gan ei bod yn gofyn am arweiniad cryf i drafod y cam o integreiddio polisiâu. Yn yr un modd, mae angen i Strategaeth Fwyd Genedlaethol, wedi'i mynegi'n glir, gysylltu â pholisiâu ar draws adrannau sy'n gallu cefnogi'r gwaith o'i chyflawni. Mae Strategaeth Fwyd Genedlaethol a nodau bwyd cryf yn angenrheidiol, yn bennaf oherwydd bodolaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnig saith egwyddor rhyng-gysylltiedig allweddol y dylai polisiâu cyhoeddus gyfrannu atynt ar y cyd. Mae dull systemau bwyd yn gyfle delfrydol i integreiddio sectorau a dangos system sy'n gallu darparu amrywiaeth eang o fanteision o dan saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth feddwl am y tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys, fel y nodir yn y Ddeddf. Yn benodol, byddai'r Comisiynydd yn sicrhau parhad o ran dull gweithredu y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol.

B. Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r Nodau Bwyd

B.1 Egwyddorion cyffredinol y Bil

Rydyn ni'n deall mai dyma yw'r egwyddorion cyffredinol:

“Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ceisio sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru i gryfhau diogelwch bwyd, a gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru, a gwella dewis i ddefnyddwyr”.

Rydym yn cytuno bod gwella llesiant economaidd-gymdeithasol yn darged teilwng, ond mae angen ystyried hyn ar y cyd â llesiant amgylcheddol. Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru'n bryderus iawn nad yw egwyddorion cyffredinol y Bil yn ddigon cryf ar lechyd na'r Amgylchedd. Yn gyntaf, gallai ceisio sefydlu system fwyd sy'n **fwy** cynaliadwy, yn hytrach na sefydlu system fwyd gynaliadwy, awgrymu gweithgarwch anghynaliadwy parhaus (os caiff ei leihau). Byddem yn awgrymu bod geiriad yr egwyddorion yn y Bil yn fwy eglur ynghylch yr angen i adfer natur a lliniaru a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Yn hytrach na lleihau niwed i'r amgylchedd yn unig, dylai system fwyd Cymru gyfrannu'n gadarnhaol at yr amgylchedd drwy hyrwyddo dulliau agroecolegol.

Nodwn fod diogelwch bwyd yn un o brif egwyddorion cyffredinol y bil. Credwn nad yw'r cysyniad o ddiogelwch bwyd yn gwahaniaethu o ble daw bwyd na sut y caiff ei gynhyrchu a'i ddosbarthu. Yn groes i'r cysyniad o ddiogelwch bwyd, mae sut a ble caiff bwyd ei gynhyrchu a'i fwyta yn bwysig i'r cysyniad o sofraniaeth bwyd. Mae sofraniaeth bwyd yn pwysleisio cynhyrchu, dosbarthu a defnyddio mewn modd ecolegol briodol, cyfiawnder cymdeithasol-economaidd a systemau bwyd lleol, fel ffyrdd o fynd i'r afael â newyn a thlodi a sicrhau diogelwch bwyd cynaliadwy i bob person. Credwn fod sofraniaeth bwyd yn gysyniad mwy defnyddiol ac yn uchelgais wleidyddol ar gyfer anghenion presennol Cymru. Mae'r cysyniad o sofraniaeth bwyd yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion agroecoleg. Dylai'r Bil fod yn cefnogi cyfres o fesurau sy'n cryfhau cadwyni cyflenwi agroecolegol lleol, yn cynyddu amrywiaeth o gnydau domestig a da byw, ac yn cydbwysu gallu cynhyrchu ag anghenion y boblogaeth ar gyfer deiet iach (Canllaw Bwyta'n Dda), fforddiadwy sy'n briodol yn ddiwylliannol. Ni ddylai fod yn ymwneud â chynyddu cynhyrchiant fel y cyfryw, ac yn sicr nid ar unrhyw gost. Ac er bod gwella dewis defnyddwyr drwy arallgyfeirio cadwyni cyflenwi yn ddymunol – mae cynyddu dewis defnyddwyr a allai arwain at ddewisiadau bwyd sydd ddim yn iach neu'n niweidiol yn amgylcheddol neu'n gymdeithasol, yn annymunol.

B.2 Cwmpas Prif Nod Bwyd

Mae Cynghrair Polisi Bwyd Cymru'n gefnogol i'r syniad o gael prif nod bwyd, ond rydym yn teimlo bod y nod yn agored i gael ei ddehongli (nod cyffredinol o ddarparu bwyd fforddiadwy, iach ac economaidd ac amgylcheddol gynaliadwy i bobl Cymru). **Mae'r Gynghrair o'r farn mai prif nod Bil Bwyd Cymru yw darparu fframwaith deddfwriaethol sy'n galluogi cydlyniant polisi ar draws y system fwyd dan arweiniad egwyddorion agroecolegol.** Yn ogystal, byddem yn argymhell cynnwys “cymal pwrpas” i sicrhau bod y Bil yn ystyried yr holl agweddau ar y system fwyd; er enghraifft:

*Mae Bil Bwyd (Cymru) wedi'i gynllunio i greu system lywodraethu newydd sy'n hybu dull system fwyd i sicrhau system fwyd iachach, gynaliadwy a chyfiawn ar gyfer **enedlaethau'r presennol a'r dyfodol** yng Nghymru drwy gryfhau sofraniaeth bwyd, adfer a chynnal bioamrywiaeth, lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd a gwella llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae'r Comisiwn Bwyd Cenedlaethol, dan arweiniad y Comisiynydd, yn gyfrifol am oruchwyllo a chyflwyno strategaeth System Fwyd Genedlaethol wedi'i **chyd-gynhyrchu** sy'n cyd-fynd ag egwyddorion agroecolegol ac sy'n cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer cyrraedd targedau penodol. Bydd y Comisiwn Bwyd yn cydweithio â Gweinidogion i sicrhau bod strategaethau a pholisïau newydd yn cyd-fynd â pholisïau a strategaethau sefydledig, ac yn cael eu hintegreiddio iddynt, i sicrhau bod gan bawb fynediad, mewn ffordd urddasol a phriodol yn ddiwylliannol, at fwyd maethlon, cynaliadwy a diogel*

bob amser (atal). Wrth wneud hynny, mae Bil Bwyd (Cymru) yn integreiddio'r pum ffordd o weithio sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

B.3 Nodau Bwyd Eilaidd

Rydyn ni'n credu y dylai Nodau Bwyd ymddangos ar wyneb y Bil a chyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn helpu i ysgogi camau gweithredu ar unwaith a helpu i fesur cynnydd (e.e. drwy osod Amcanion Llesiant – gweler A.1). Byddai ystyried cysoni targedau â'r dyletswyddau sydd eisoes wedi'u nodi mewn Deddfwriaeth, fel y rhai sydd wedi'u cynnwys yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), yn ymarferol.

Mae'r nodau bwyd eilaidd a amlinellir yn yr ymgynghoriad yn rhai sectoraidd ac maent yn gweithio yn erbyn yr angen i fabwysiadu dull integredig o ymdrin â'r system fwyd. Mae'r Gynghrair wedi awgrymu Nodau Bwyd amgen, gyda thargedau ar eu cyfer yn cael eu gosod gan y Comisiwn:

1. Bwyd i bawb

Cymru yw'r wlad gyntaf i ddileu'r angen am fanciau bwyd. Mae gan bawb yng Nghymru fynediad at y bwyd sydd ei angen arnynt mewn ffordd urddasol, er mwyn byw bywyd iach.

Targed: Dim banciau bwyd yng Nghymru erbyn 2030 - gweler y paragraff ar

2. Bwyd ar gyfer iechyd y cyhoedd

Mwy o lysiau'n cael eu bwyta, sy'n cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru i Gymru.

Darpariaeth addysgol ar faterion sy'n ymwneud â bwyd ym mhob cyfnod allweddol ym mhob ysgol.

Targed: 75% o'r defnydd o lysiau a argymhellir gan Bwyta'n Dda'n cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru erbyn 2030

Targed: 100% o ysgolion yn cynnwys bwyd yng nghwricwlwm Cyfnod Allweddol 1-3

3. System fwyd sero net

System fwyd sero net i Gymru.

Targed: Allyriadau sero net o system fwyd Cymru erbyn 2035.

4. Ffermio ar gyfer natur a hinsawdd

Mwy o gynhyrchu agroecolegol.

Mesur ôl troed amgylcheddol bwyd a gosod targed i leihau ôl troed amgylcheddol cynhyrchu a defnyddio bwyd.

Targed: Cynhyrchu agroecolegol 100% erbyn 2035

Targed: Gostyngiad o 75% yn ôl troed amgylcheddol cynhyrchu a defnyddio bwyd gartref a thramor erbyn 2035.

5. Caffael bwyd yn gynaliadwy

Y cyhoedd yn caffael mwy o fwyd gan gynhyrchwyr organig neu agroecolegol Cymru. Dylid rhoi sylw i strategaethau ar gyfer sicrhau cyflenwad digonol ac offer caffael deinamig sy'n addas i'r diben yn y map.

Targed: 30% o fwyd gan gynhyrchwyr organig neu agroecolegol Cymru yn cael ei gaffael gan y cyhoedd.

6. Swyddi a bywoliaeth yn y sector bwyd cynaliadwy

Mae'r rhai sy'n ennill eu bywoliaeth yn y system fwyd yn derbyn, neu'n cael eu galluogi i dderbyn, o leiaf y cyflog byw neu enillion teg am eu gwaith. Nid yw'r gwaith, boed ar y tir neu ar y môr, yn cynnwys arferion sy'n camfanteisio, ac mae'n amrywiol, yn ddifyr ac yn grymuso. Ni ellir cyflawni hyn drwy ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar fusnesau unigol neu drwy orfodi cyflogau uwch, ond drwy ddadansoddi strwythur y farchnad yn y system fwyd sy'n arwain at gyflogau isel mewn ffermio a'r sector bwyd.

Targed: 100% o swyddi'r sector bwyd yn talu'r cyflog byw gwirioneddol erbyn 2030

Mae pob un o'r nodau uchod yn cynrychioli darn o waith integredig ac yn dibynnu ar gydweithio rhwng Gweinidogion ac adrannau'r llywodraeth i sicrhau dull gweithredu cydlynol. Bydd y dull cydlynol hwn yn cael ei oruchwyllo a'i gyfryngu gan y Comisiwn Bwyd, tra bydd gan bob Gweinidog ddyletswydd i gydweithio i gyrraedd targedau.

B.4 Cynlluniau Bwyd Lleol

Gellid cynnwys y targedau hyn wedyn yn yr Amcanion Llesiant (gweler A.1) a'u cyflwyno drwy gynlluniau bwyd lleol wedi'u goruchwyllo ar lefel leol gan Bartneriaethau Bwyd, sy'n gweithio ar y cyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae enghreifftiau o'r arfer hwn yn datblygu i'w gweld drwy'r Rhwydwaith o Bartneriaethau Bwyd Cynaliadwy sy'n dod i'r amlwg ac yn benodol, Bwyd Blaenau Gwent, Bwyd Sir Gâr, Bwyd Caerdydd, Bwyd Sir Fynwy a Bwyd y Fro. Mae Strategaeth Bwyd Da gan Bwyd Caerdydd ar gyfer y ddinas yn nodi pum nod bwyd – Caerdydd iach; Caerdydd sy'n amgylcheddol gynaliadwy; economi leol ffyniannus; system fwyd deg a chysylltiedig; a mudiad bwyd sy'n grymuso. Cynhyrwyd y strategaeth hon ar y cyd gan bron i 2,500 o unigolion a sefydliadau yng Nghaerdydd a chanlyniadau arolwg dinasyddion Caerdydd. Cyngor Caerdydd a BIP Caerdydd a'r Fro. Daeth Cyngor Caerdydd yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf yn y DU i gyhoeddi ei Strategaeth Fwyd ei hun yn 2019. Gan gydnabod yr angen i weithio ar draws portffolios, mae Cyngor Caerdydd wedi penodi Swyddog Bwyd pwrpasol ac wedi cynnal Grŵp Llywio trawsadrannol. Mae'r Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Dda dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac a gymeradwywyd gan y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys ardal flaenoriaeth cymunedau iechyd, gan ymrwymo i barhau i ddatblygu partneriaethau bwyd cynaliadwy.[PC(HW-FSW1)]. Byddai darparu adnoddau digonol ar gyfer hyfforddiant mewn cyrff cyhoeddus a chydlynu partneriaethau bwyd yn allweddol i'w gweithredu'n llwyddiannus – gwaith y gellid ei ddatblygu drwy'r Strategaeth Fwyd Gymunedol.

Dylai polisiâu eraill a ddatblygir gan awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac aelodau eraill o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys cynllunio, caffael, addysg ac eraill, gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cynlluniau Bwyd Lleol. Er enghraifft, dylid diwygio cynlluniau datblygu lleol a pholisi cynllunio i sicrhau eu bod yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd lleol cynaliadwy; ond yn atal datblygiadau amaethyddol sy'n niweidiol yn ecolegol. Mae angen diwygio'r rhain er mwyn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd cynaliadwy, yn enwedig cynhyrchu ffrwythau a llysiau'n lleol a fydd fel arall yn cael eu dal yn ôl – tra bo cynhyrchu bwyd sy'n niweidiol i'r amgylchedd yn parhau.

Mae'r aelodau canlynol o Gynghrair Polisi Bwyd Cymru wedi cyfrannu at yr ymateb hwn:

Synnwyr Bwyd Cymru

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Cynghrair Gweithwyr y Tir Cymru

Urban Agriculture Consortium

Rhwydwaith Ffermio sy'n Ystyriol o Fyd Natur

WWF Cymru

RSPB Cymru

Dr Angelina Sanderson Bellamy, Athro Cyswllt Systemau Bwyd, Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bryste

Yr Athro Terry Marsden, Prifysgol Caerdydd

Simon Wright, Cyfarwyddwr Bwyd a'r Economi Wledig, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Efallai y cyhoeddir yr ymgynghoriad hwn a bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar <https://www.foodsensewales.org.uk/good-food-advocacy/food-policy-alliance-cymru/>

Gellir anfon unrhyw ymholiadau at foodsensewales@wales.nhs.uk